**Medi 4. 1879.**
Byw heddyw, a chysgu heno am y waith gyntaf yn y ty-newydd Cenhadol.
**Medi 17. 1879.**
*Princess of Wales* yn dyfod i Enlli o Aberystwyth.
**Ionawr 31. 1880.**
Damwain Evan Jones, bachgen Thomas Jones, yn cael dryllio ei wyneb yn arswydus gan y gaseg.
**Ebrill 9. 1880.**
Bonfire ar dop y mynydd ar anrhydedd Watkin Williams A.S. a Lord Newborough.
**Gorphenaf 20.**
Ymwelodd y *Fairy* ag Enlli: heddyw gyda lliaws mawr o ddieithriaid ar ei bwrdd.
**Awst 11. 1880.**
Heddyw dau bregethwr dieithr or America yn pregethu yma.

Mae'r dyddiaduron yn llawn o enwau pregethwyr a penawdau pregethu, rhy liaws o lawer i'w henwi i gyd. Pregethwyr mawrion fel y Parchedigion John Hughes Edern; Robert Hughes Uwchlaw'r Ffynnon; Owen Hughes, Tregymun; Capt. H. Hughes, Gellidara; Thomas Owens, Porthmadog, Francis Jones, Waunfawr, Peter W. Jones, Pen-y-groes ond yr unig bregethwyr o dramor a enwir yw y gŵr bonheddig o'r Amerig.

**Medi 7. 1880.**
Heddyw fe dderbyniasom glock ardderchog i'w osod yn y capel newydd, yn anrheg gan Mr. John Gabriel Jones, Pwllheli. Gwerthfawrogir y rhodd yn arbenig.
**Medi 9. 1880.**
Heddyw fe'i gosodwyd yn ei le yn y capel newydd.
**Hydref 4. 1880.**
Dydd diolchgarwch am y cynhaeaf, yr holl ynyswyr yn rhoddi eu presenoldeb.
**Hydref 27. 1880.**
Gormod o storm i fynd i gynnal cyfarfod gweddi.
**Tachwedd.**
Treuliais y mis hwn trwy wasanaethu yn Llundain, fel nad oes gennyf ddim llawer i ddyweyd am symudiadau yr achos yn Enlli; amgen na bod iddo gael ei ddwyn ymlaen gystal ag y gallesid dan yr amgylchiadau, pawb yn gwneud ei ran yn ffyddlon ac ymroddgar.
**Ionawr. 1881.**
Ar ddechrau y flwyddyn hon yr oedd genym wythnos o gyfarfodydd gweddiau, ond fem lluddiwyd rhag cwblhau yr wythnos oherwydd afiechyd a thywydd ystormus iawn. Ni welwyd y fath eira ar yr ynys ers llawer iawn o flynyddau, yr holl ynys wedi ei gordoi ag eira yn nghyd a chorwyntoedd ystormus yn lluchio hwnw yn lluwchfeydd o'r naill pen i'r llall, a rhew caled gyda hyny. Ugeiniau o adar yn ffoi yma, ac ugeiniau o honynt yn cael eu chwythu dros y dibin i'r mor. Tymestl arswydus ydyw.
**Ionawr 24. 1881.**
Cwch yn mynd drosodd i gyrchu Dr. Owen at John Williams, Ty-Bach.
**Ebrill 4. 1881.**
Mynd oddiamgylch i gyfrif y bobl er cael census y llywodraeth (Poblogaeth Enlli ydoedd 72).
**Gorphenaf 21. 1881.**
Cyfisol ar dyddiau dilynol. Mr Kinsley, Caernarvon, yma yn tynu lluniau o bersonau a phethau yr ynys. Y *Fairy* wedi ymweld a ni a 68 o deithwyr. Cynhaeaf yr wythnos hon.
**Hydref 14. 1881.**
Cyfisol. Ystorm o wynt a gwlaw trymaf a deimlwyd yma yng nghof neb o'r preswylwyr. Mis ystormus iawn ydoedd y mis hwn.
**Tachwedd 1881.**
Gellir gyda phriodoldeb alw'r mis hwn yn ei berthynas ag Enlli, yn fis y ddalfa fawr, pan y buont yma am dair wythnos llawn heb un cymundeb ar 'tir mawr' oherwydd ystorm o wynt mawr or 8 cyfisol hyd y 29 cyfisol. Ni fu y fath ddalfa yn Enlli ers tua 35 mlynedd.
**Rhagfyr 1881.**
Prif bwnc yr ynyswyr y dyddiau hyn ydyw Life Boat i ynys Enlli. Y mae Hon. Ch Wynn, Rhug, yn gweithio yn egniol on plaid er cyrraedd yr amcan clodwiw hwn.
**Rhagfyr 26. 1881.**
Cyfisol. Cynnal ein gwyl Nadolig heno yn yr ysgoldy, cyfarfod difyr iawn ac adeiladol, yr ysgoldy wedi ei gwneud yn wych odiaeth at yr achlysur gan Miss Bowen a Mr. D. Briggs, Light House. Yr oedd cynydd y plant mewn dysg yn amlwg iawn, yr adroddiadau a'r canu yn gampus. Yr hen 'Father' Ty-Pellaf, Griffith Pritchard, mewn hwyl dda.
Gellir dweud am y flwyddyn hon etto basio heb i neb farw na bod mewn salwch peryglus. Er i'r cychod fod rai troion mewn peryglon, nes bron dymchwelyd, ac iddynt unwaith fod yn agos i golli yn y niwl.
O na folianer yr Arglwydd am ei ddaioni a'i ryfeddodau i ni feibion dynion.
**Ionawr 1af. 1882.**
Y Flwyddyn hon yn dechrau ar y Sabboth. Tywydd stormus a gwlyb.
**Mehefin. 1882.**
Dynion y Trinity yn adeiladu ty-newydd yn y Light-House. Llong yn dod a llwyth o lô yma. Danfon yr arian am y glô i Lerpwl, i Mr. Williams and Sons, ar y 30 o'r mis.
**Gorphenaf 1882.**
Ceisio cael grant o'r Llywodraeth at yr ysgol ddyddiol. Mr. Watts yn gorfod llogi cwch i ddyfod trosodd yma ar y 26 cyfisol. Arholi y plant, canmoliaeth uchel iddynt gan Mr. Watts, ond gan fod yr Ysgol o gyrraedd moddion y Llywodraeth, nis gellir rhoddi grant.
**Awst 11. 1883.**
Ar y 16eg, bu farw yr hen frawd selog a ffyddlon, Griffith Pritchard, Ty-Pellaf. Bu farw mewn ffit ar ol bwyta ei swper. Daeth at grefydd ar ddydd agoriad y capel newydd, Sef Awst 1af 1876, wedi gwasanaethu crefydd am dros saith mlynedd, bu farw yn 78 mlwydd oed, a chafodd gladdedigaeth barchus ar y 20 cyfisol. Teimlir colled fawr ar ei ol.

Yn ôl y cofnodion a geir yn y dyddiaduron, gwelir fod gweinidog newydd wedi dechrau yn Enlli ym mis Mawrth, sef William Jones, Gosen, Llanaelhaearn, ac ef mae'n debyg a gariodd ymlaen y gwaith o gofnodi.

**Mawrth 13. 1883.**
Pregethu heno am y waith gyntaf i'r Ynyswyr, oddiar Psalm 144-8.
**Tachwedd 20. 1889.**
Cludo gweddillion Arglwydd Newborough i'w gladdu mewn bedd gist hardd, yn hen fynwent y Seintiau. Gweithiwyd y bedd o dan arolygiaeth Mr. Thomas Williams, Pen-y-Bryn, Llidiardau, Aberdaron.
**Rhag 26. 1889.**
Heddyw anrhegwyd y plant ar bobl ieuangc a The a bara brith yn yr ysgoldy, gan Mrs. Bowen, Light House. Yn ystod y flwyddyn hon ein hanregu gan Miss. M. E. Marsh, Ty-Brith, Carno, a llyfrau gwerthfawr yn y ddwy iaith, 100 mewn nifer, a hefyd book case hardd i'w rhoddi, pa un a gedwir yn y capel, ac a rodder allan yn wythnosol fel y gelwir amdanynt. Mae ei rhoddion gwerthfawr wedi gwneud eisoes lawer o lês.
**Gorff 4ydd. 1889.**
Miss Rosina Davies, yr Efengyles o'r Deheudir yn ymweld a'r ynys, yn pregethu am 2 y prynhawn.
**Mawrth 13. 1891.**
Gosod y fflag-staff ym mhen y mynydd.
**Ebrill. 1891.**
Marw Mrs. Neal, Light House yn 32 mlwydd oed. Ei geiriau olaf. "O" the bright beautiful home".
**7ed.** Claddedigaeth Mrs Neal ym mynwent Enlli.
**Gorff 4. 1891.**
Y Painters yn dod i'r Light House, Manager Mr. Goodwin. Cyfnewid lliw y Light House Tower o fod yn wyn, i goch a gwyn.
**Awst 21. 1891.**
Dyfod a monument yma o Gaernarvon i'w roddi ar fedd Lord Newborough.
**23ain** Yr Anrhydeddus F. G. Wynn yn ymweld a'r ynys.
**Medi 4. 1891.**
Yr Anrhydeddus F. G. Wynn yn ail ymweld a'r ynys.
**16eg** Darfod gosod y monument ar fedd Lord Newborough, uchter y monument 25 troedfedd, lled 25 troedfedd. Ei bwysau yn 22 tunell.
**Tachwedd 4. 1891.**
Mr. Thomas Bowen yn ymadael o Enlli, wedi bod yn Arolygydd y Goleudy am dros 17 mlynedd.
**Rhagfyr 3. 1891.**
Marw Mr. Bowen yn Pwllheli, yn 68 mlwydd oed, ei gladdedigaeth yn Deneio.
**Hydref 25. 1892.**
Mr. Edward Neal yn ymadael a'r goleudy i St Tudwal's Lighthouse.
**Tachwedd 14.**
Marw Thomas Jones, Ty-Newydd yn 62 mlwydd oed.
**15** Mynd drosodd i nol arch.
**16** Dychwelyd yn ol gyda'r arch a mynd drosodd yr un diwrnod gyda'r corph.
**17** Claddedigaeth Thomas Jones ym mynwent Aberdaron.
**19** Dychwelyd o'r Angladd.
**Ebrill. 1895.**
Yr Influenza yn drwm iawn ar yr ynyswyr yn gyffredinol.
**Mehefin 9. 1896.**
Llong yn dod a glo i'r ynys.
**26** llong yn dod a defnyddiau i ail-adeiladu Carreg Bach.
**29** Gweithwyr yn dod yma i roi pen newydd ar Carreg Bach, ac i adgyweirio y tai eraill.
**Hydref 7. 1896.**
Tymestl hir gofiadwy, – y llawn wedi codi yn dra uchel.
**Mehefin 15. 1897.**
Mr. Jenkins, Light-House Keeper, yn syrthio dros y cliff yn y mynydd, dyfnder oddeutu 40 llath. Bu farw mewn canlyniad ym mhen bythefnos yn yr Hospital yn Caergybi.
**23.** Jubilee teyrnasiad y Frenhines Victoria. 60 mlynedd. Tea Party i'r holl ynyswyr wedi ei anrhegu gan Miss. Marsh, Carno.
**Hydref 9. 1897.**
George Norton a'i deulu yn ymadael o'r Light House.
**18** Dydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Casgl – 12/-.
**Mai 2. 1898.**
Derbyn Hugh Dobson, gwas Plas Bach yn gyflawn aelod.
**Rhag 4. 1898.**
Marw Ellen Jones, Garreg Fawr yn 65 mlwydd oed.
**8** Mynd a'i chorph drosodd i'w gladdu i Aberdaron. Tywydd mawr ar y pryd, gorfod gwneud yr arch o'r defnyddiau oedd yn yr ynys.

(Yn ôl llyfr *Enlli* H. D. Williams, Rydlios, y gweinidog wnaeth yr arch, allan o froc môr mae'n fwy na thebyg.)

Ol-Nodyn.
Codwyd ac ysgrifennwyd y cofnodion oddi ar y dyddiaduron gwreiddiol gan y diweddar William Jones, Aberdaron, hanesydd trwyadl yn ei fro. Gŵr y treuliais aml i awr yn ei gwmni diddan ar ôl iddo fynd yn gaeth i'w gadair, ac un a agorodd fy llygaid i'r hyn a fu.

GWILYM JONES, TUDWEILIOG